PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Lent(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr De'Ath, Goddard, Merry, Sanders a/ac White |

24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jonathan Evans a'r Cynghorydd Elly Jones.

Roedd y Cynghorydd Lent wedi rhoi gwybod yn flaenorol y byddai'n hwyr i'r cyfarfod, o ganlyniad dywedodd y Cyng. Merry y byddai'n cadeirio yn y cyfamser.

25 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

26 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf a 13 Medi 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

27 : DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD CHWARTER 2

Croesawodd y Cadeirydd Kim Brown (Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Pherfformiad) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad. Diben yr adroddiad oedd galluogi'r Pwyllgor i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal, a hefyd i'w galluogi i ystyried cyfleoedd i wella'r canlyniadau hyn.

Cafodd y Pwyllgor ei wahodd i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y 12 cynnig o benodi ym mis Gorffennaf a mis Awst a holon nhw am y sefyllfa gyfredol.
- Dywedodd swyddogion bod 4 swydd ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol (SAA); byddent yn cael eu llenwi erbyn diwedd mis Rhagfyr a fydd yn dileu'r angen am SAAau asiantaeth
- Holodd yr Aelodau am y sefyllfa gyfredol mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod hysbysebu ar gyfer staff penodol a dywedwyd wrthynt fod adroddiad wedi'i baratoi a bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur.
- Dywedodd yr Aelodau fod arddull cyflwyno'r adroddiad yn ddefnyddiol ond y byddai rhywfaint o gyd-destun mewn perthynas â nifer o'r adolygiadau o fudd.
- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad gan Swyddogion o ran a yw'r un adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc neu beidio. Dywedodd Swyddogion fod yr un un yn cael ei gyflwyno iddynt, er bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhoi i ddangos newidiadau dros amser.
- Yn dilyn cwestiwn, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y ffaith bod 93.8% o adolygiadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal o fewn

yr amserlen ragnodedig yn dyst i staff ac wedi'i helpu gan lefelau staff sydd wedi aros yn gyson. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod gweithdrefnau gofal yn cael eu cwblhau o fewn 24 wythnos, y ffigur hwn yw'r gorau yng Nghymru; 26 wythnos yw'r ffigur targed.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

28 : GOHEBIAETH – PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC PERFFORMIAD CHWARTER 1

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhiant Corfforaethol.

29 : CHWARTER 2 ADRODDIAD AR GWYNION A CHANMOLIAETH 2016/17

Croesawodd y cadeirydd Kim Brown (Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Pherfformiad) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad. Mae adroddiad Chwarter 2 yn trafod cwynion a sylwadau o 1 Gorffennaf 2016 hyd at 30 Medi 2016.

Cafodd y Pwyllgor ei wahodd i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Anogodd yr Aelodau rybudd wrth roi enghreifftiau o gwynion yng nghynnwys yr adroddiad i sicrhau nad oes modd adnabod y rhai hynny y cyfeirir atynt.
- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad o ran pam bod nifer y cwynion wedi codi.
- Dywedodd swyddogion fod nifer y cwynion yn eratig yn gyffredinol ac nad oes rheswm penodol dros y codiad yn ystod y chwarter hwn.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

30 : RHAGLEN WAITH - EITEM DRAFOD

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod dull wedi'i wneud i CAMHS gyda'r bwriad o'u cael i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd y disgwylir i Lansiad Rhianta Corfforaethol ddigwydd ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, gobeithio y caiff ei alinio gyda'r gweithdy ARM.

31 : ADRODDIAD GWASANAETH MABWYSIADU RHANBARTHOL

Croesawodd y Cadeirydd Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad, sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

- Yn dilyn cwestiwn, dywedwyd wrth yr Aelodau fod bwrdd rheoli sy'n goruchwylio swyddogaeth y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol.

- Holodd yr Aelodau am y perfformiad yn neunydd Life Journey; a fyddai cytuno ar gamau gwella yn golygu y gallai pawb gael mynediad at y deunydd hwnnw; a beth fydd yn digwydd gyda phlant sydd heb ei gael. Dywedodd swyddogion eu bod yn gwybod pwy sy'n rhan ohoni. Hyd at yr adeg hon, nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau mor drwyadl ag y dylai fod wedi.

PENDERFYNWYD:  Nodi cynnwys yr adroddiad.

32 : ADRODDIAD SICRWYDD ANSAWDD BLYNYDDOL CROSSLANDS

Croesawodd y Cadeirydd Siobhan Teague (Rheolwr Cartref Plant Crosslands) o’r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol ar gyfer Crosslands (Ebrill 2015-2016)

- Roedd yr Aelodau am ganmol Siobhan Teague am y cynnydd cadarnhaol parhaol sy’n cael ei gyflawni yn Crosslands.

PENDERFYNWYD:  Nodi cynnwys yr adroddiad.

33 : ADDYSG YN BWYSIG - ADRODDIAD AR GANLYNIADAU 2015/16 (I’W RHOI MEWN TABL)

Croesawodd y Cadeirydd Gillian James (Arweinydd Cyflawniad, Cau’r Bwlch) i’r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Interim Perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ysgolion Caerdydd 2015-2016 ac mewn Darpariaeth Allan o’r Sir.

Nododd yr adroddiad y prif gryfderau a gwendidau mewn perfformiad gyda chanlyniadau’r Cyfnod Sylfaenol, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 bod yn derfynol ac yn seiliedig ar ddata perfformiad go iawn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.  Roedd y dadansoddiad Cyfnod Allweddol 4 ar sail canlyniadau dros dro. Roedd nifer o agweddau ar y canlyniadau yn anghyflawn neu’n aros am ganlyniad apeliadau.

- Yn dilyn cwestiwn a ofynnwyd am y cymorth a roddir i bobl ifanc nad ydynt yn ymdopi’n dda gyda’r cwricwlwm safonol, dywedwyd Swyddogion bod ysgol yn edrych ar ddewisiadau eraill er hyn o bryd ond nodon nhw na fyddai nifer o bobl ifanc yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw fath o gynllun hyfforddi pe bai'n cael ei gynnig ar gam cynharach.

PENDERFYNWYD:  Nodi cynnwys yr Adroddiad Dros Dro

34 : ADBORTH AR YMWELIADAU AELODAU – EITEM DRAFOD.

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhiant Corfforaethol.

35 : SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL – ADRODDIAD 6 MIS

Croesawodd y Cadeirydd Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant) a Natasha James (Rheolwr Gwasanaeth, Diogelu ac Adolygu) i’r cyfarfod i gyflwyno adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol sy’n rhoi gwybodaeth i’r Pwyllgor am rôl, swyddogaeth a gweithgarwch Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad, gan ystyried y cynnydd yn y niferoedd, fod anghenion Plant sy’n Derbyn Gofal yn cael eu bodloni yn briodol a dywedwyd wrthynt fod y rhai hynny sy'n rhan o'r gwaith yn gwneud popeth y gallant i stopio plant rhag derbyn gofal, ond yn aml mae demograffig y ddinas a'r materion cymhleth sydd gan blant a phobl ifanc yn golygu mai derbyn gofal yw'r unig opsiwn.

- Holodd yr Aelodau am nifer y plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth asiantaeth y tu allan i'r awdurdod lleol a dywedwyd wrthynt fod nifer o resymau dros hynny, gan gynnwys: diffyg lleoliadau addas yng Nghaerdydd a natur y problemau sydd gan y plentyn/person ifanc.

- Yn dilyn cwestiwn gan yr Aelodau, dywedodd Swyddogion fod hawl gan yr holl blant hynny sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir i weld ymwelwyr annibynnol; mae gwaith ar y gweill gyda Nyas i sicrhau bod ymweliadau yn digwydd yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr Adroddiad Dros Dro

36 : GWAHARDD Y CYHOEDD

37 : ADRODDIAD RHEOLIAD 32

Nid oedd yr eitem hwn i'w gyhoeddi yn unol â pharagraff 12, Rhan(nau) 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. CYTUNWYD y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod yr eitem hon.

Roedd Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol) yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad hwn.

38 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol ddydd Mawrth, 17 Ionawr 2017 yn Ystafell Gyfarfod 1.